**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

**National Assembly for Wales**
Finance Committee

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Isobel Everett
Cadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

26 Mawrth 2019

Annwyl Adrian ac Isobel

**Ymgynghoriad ynghylch Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013**

Rwy'n ysgrifennu atoch, yn dilyn sylwadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru/Swyddfa Archwilio Cymru, i roi gwybod ichi fod y **Pwyllgor Cyllid** yn ymgymryd â'r gwaith o graffu ar **Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013** ar ôl y broses ddeddfu a bod **ymgynghoriad** yn cael ei gynnal ar hyn o bryd.

Mae ymchwiliad y Pwyllgor yn seiliedig ar y materion rydych wedi'u codi mewn perthynas â'r Ddeddf, ac mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar y cylch gorchwyl a ganlyn:

1. Archwilio **materion a godwyd** gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013; gan gynnwys:
   - Codi ffioedd
   - Trefniadau cworwm bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
   - Trefniadau adrodd Swyddfa Archwilio Cymru
   - Materion yn ymwneud â gosod cyfrifon ac adrodd arnynt
2. Ystyried i ba raddau y byddai'n fuddiol adolygu agweddau eraill ar Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Bydd y Pwyllgor yn cael tystiolaeth lafar yn ddiweddarach yn nhymor yr haf a bydd Clercod yn cysylltu â chi maes o law i drefnu'r sesiwn hon. Yn y cyfamser, os oes unrhyw dystiolaeth ychwanegol yr hoffech i'r Pwyllgor ei hystyried, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn anfon eich ymateb erbyn 3 Mai 2019. Os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â: Georgina Owen, Clerc y Pwyllgor, 0300 200 6387, **SeneddCyllid@cynulliad.cymru**.

Yn gywir

Llyr Gruffydd AC, Cadeirydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565